**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (**193)

**Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2006**

**AGENDA**

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1 -** Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio - ***TYNNWYD YNOL***

**Eitem 2 -** Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Eitem 3 -** Datganiad Busnes

Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Contract Cyflenwi Ocsigen

Eitem 5 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Dreth Gyngor

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth*
**Eitem 6 -** Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth*
**Eitem 7 -** Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25 Adran 2 a Rheol Sefydlog 24.25

Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25 Adran 3

Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

**Eitem 10 -** Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

Eitem 11 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006

Eitem 12 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006

Eitem 13 - Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy o dan Reol Sefydlog 29

Eitem 14 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Eitem 15 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

...................................

## Eitem 1 – Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio - *TYNNWYD YNOL*

**NDM2923 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig

1. Bod y Cynulliad yn penderfynu diddymu ei benderfyniad ar 28 Chwefror 2006 mewn perthynas ag NDM2854 (ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2006-2)

2. Bod Pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2006-3, yn cael ei sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a nodir yng nghyswllt pob mater yn yr atodlen honno a bod swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y rheiny'n cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.

3. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones
Jocelyn Davies
Tamsin Dunwoody
Glyn Davies

4. Bod y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 28 Ebrill 2006, pa un bynnag a fydd gyntaf.

5. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna, yn yr achos hwnnw, dirprwyir y

swyddogaethau a nodir ym mharagraff 2 uchod, yng nghyswllt mater o’r fath, i'r Prif Weinidog.

**Atodlen**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 (FEL Y'I DIWYGIWYD): APÊL ADRAN 78 GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**DATBLYGIAD PRESWYL ARFAETHEDIG YN DILYN DYMCHWEL ADEILADAU CYFREDOL YN YSBYTY MEADOWSLEA, PENYFFORDD, SIR Y FFLINT**

**APÊL CYNLLUNIO AC APÊL CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG GAN T-MOBILE (UK) LTD AR GYFER DISODLI LWFRAU CYFREDOL GYDA LWFRAU GRP ER MWYN HWYLUSO GOSOD YN FEWNOL ORSAF FFÔN SYMUDOL YN EGLWYS SANT THOMAS, STRYD Y BADDON, Y RHYL**

....................................

## Eitem 2 - Cwestiynau i’r Prif Weinidog

....................................

## Eitem 3 - Datganiad Busnes

....................................

## Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Contract Cyflenwi Ocsigen

....................................

## Eitem 5 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Dreth Gyngor

....................................

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM2924 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006;
(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2006; a
(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno
Y Memorandwm Cywiriadau

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:
(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006;
(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2006; a
(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno
Y Memorandwm Cywiriadau

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 14 Mawrth 2006 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol â'r Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

....................................

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25 Adran 2 a Rheol Sefydlog 24.25

**NDM2925 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25 a Rheol Sefydlog 25 Adran 2:

1) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 14 Mawrth 2006 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2006; a

2) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol â'r Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

....................................

## Eitem 8 – Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25 Adran 3

**NDM2926 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft, Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 14 Mawrth 2006; ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 14 Mawrth 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2006 - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno
Y Memorandwm Esboniadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

..................................

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

**NDM2927 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2006.

**NDM2928 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006; a

2) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2006; a
(b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006; ac
(c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Y Memorandwm Cywiriadau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.................................

## Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

**NDM2929 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006.

**NDM2930 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006; a

2) Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

(a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006; a
(b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.................................

## Eitem 11 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006

**NDM2931 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006

**NDM2932 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006; a

2) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006; a
(b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.................................

## Eitem 12 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006

**NDM2933 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2006.

**NDM2934 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 14 Mawrth 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006; a

2) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2006; a
(b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.................................

## Eitem 13 – Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy (2006) o dan Reol Sefydlog 29

**NDM2935 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog

29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy (2006), y gosodwyd copi drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 14 Mawrth 2006.

**NDM2936 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

Gan weithredu dan Reol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy (2006) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 14 Mawrth 2006.

Dogfennau Ategol
Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy (2006)

....................................

## Eitem 14 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**NDM2937 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu mai Datblygu Cynaliadwy ddylai fod wrth wraidd gweithredoedd y llywodraeth, nid geiriau'n unig, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a. Cyhoeddi mynegai blynyddol yn yr adroddiad ar Ddatblygu Cynaliadwy, yn mesur yn glir y twf economaidd yn erbyn allyriadau $CO_2$;

b. Rhoi ar waith strategaeth werdd ar gyfer swyddi, gyda thargedau clir a mesuradwy ar gyfer llwyddiant, yn debyg i'r hyn sydd ar y gweill yn yr Alban;

c. Datblygu a chyhoeddi graddfeydd effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau

cyhoeddus yng Nghymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2+3)**
**(4)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ôl C:

Cydnabod na chyflawnir datblygu cynaliadwy heb strategaeth drafnidiaeth integredig nad yw'n seiliedig ar y model rhagweld a darparu.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ôl C:

Sicrhau nad yw'r gyfundrefn gynllunio yn caniatáu datblygiadau newydd onid yw:

i) eu heffaith ar newid yn yr hinsawdd wedi'i hasesu; a
ii) eu bod yn ymgorffori nodweddion ynni adnewyddadwy.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ôl C:

Sefydlu corff sy'n annibynnol ar y llywodraeth i bennu a monitro targedau ar gyfer lleihau nwyon ty gwydr yng Nghymru.

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i geisio’r pwerau dros reoliadau adeiladu er mwyn sicrhau bod pob cartref newydd yn cael ei adeiladu i’r safonau uchaf o ran effeithlonrwydd ynni.

………………………………

## Eitem 15 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

### NDM2938 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan Adran 142 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, yn nodi adroddiad y Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol "Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2004-05".

*E-bostiwyd copi o'r Adroddiad at Aelodau'r Cynulliad ar 14 Mawrth 2006.*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2+3+4)**
**(5)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i ddarparu mwy o gefnogaeth i awdurdodau lleol er mwyn sefydlu dull gweithredu ar y cyd i wella gwasanaethau cymdeithasol.

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y cynnydd dramatig er 1998 yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.

**Gwelliant 3 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwella canran y plant sy'n derbyn gofal sydd â chynllun gofal yn ei le o'r cychwyn.

**Gwelliant 4 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau blaenoriaeth wleidyddol barhaus o ran ariannu gwasanaethau cymdeithasol.

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i fynd ati i wella'r broses recriwtio a chadw staff er mwyn creu gweithlu sy'n ddigonol o ran niferoedd, sgiliau a lefelau cymwysterau i sicrhau y darperir gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel.

...................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

...............................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 22 Mawrth 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**